

Dangoswch sut y gall addysgu a dysgu trawsgwricwlaidd ddylanwadu ar sgiliau a dealltwriaeth fanwl. Ategwch hyn gan gyfeirio at ymchwil berthnasol, cynllun gwers manwl a deunydd darpariaeth barhaus.

Yn ystod dysgu sylfaen mae dysgu trawsgwricwlaidd yn chwarae rôl arbennig yn ddatblygiad plant. Mae dysgu trawsgwricwlaidd yn bwysig er mwyn datblygu sgiliau angenrheidiol a hefyd yn annog plant i ddatblygu mwy nag un sgil yn ystod eu tasg. Mae dysgu trawsgwricwlaidd, fel y trafodwyd gan Smith (2018) a Johnson (2020), yn ddull addysgol sy'n defnyddio pynciau lluosog mewn un wers er mwyn gwella dealltwriaeth y plant. Mae'n pwysleisio'r cysylltiadau rhwng y meysydd dysgu gan hefyd hybu meddwl beirniadol a datblygu sgiliau datrys problemau. Mae dysgu trawsgwricwlaidd yn bwysig iawn i'r cwricwlwm i Gymru ac yn cynnwys llawer o fanteision yn dysgu sylfaen. Yn gyntaf, mae'n meithrin dealltwriaeth gyfannol trwy annog plant i weld y tasgau trwy bersbectif gwahanol gan gysylltu rhwng pynciau amrywiol a phrofiadau bywyd go iawn. Golyga hyn fod y plant yn datblygu ar eu sgiliau beirniadol a sgiliau datrys problemau wrth i blant cwblhau tasgau cymhleth. Yn ogystal â hyn mae'n meithrin creadigrwydd trwy annog y plant i ddechrau datrys tasgau yn annibynnol a hefyd yn annog plant i weld o safbwyntiau amrywiol, gan sbarduno atebion a syniadau blaengar (Historical Association, 2024). Ond ar y llaw arall mae dysgu trawsgwricwlaidd hefyd yn cyflwyno heriau. Wrth gynllunio gwersi gall fod yn anodd i athrawon cydweithio er mwyn cysylltu nifer o feysydd dysgu mewn un wers. Gall sicrhau canllawiau'r cwricwlwm gan hefyd cynllunio meini prawf asesu ar draws yr ysgol cynyddu tensiwn ymhlith y dosbarthiadau gan achosi canlyniadau dysgu anghyson. Yn ychwanegol gall rhai plant sydd heb ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol yn y meysydd gwahanol yn gweld hi'n anodd cysylltu'r pynciau lluosog yma yn effeithiol gall hyn arwain at fwch academaidd fwy yn ddosbarthiadau. Ond wrth ystyried y manteision ac anfanteision yma mae manteision dysgu trawsgwricwlaidd o ran hybu dealltwriaeth gyfannol a meithrin sgiliau beirniadol yn ei gwneud yn ddull addysgol effeithiol.

Yn fy mhrofiad yn fy ysgol pontio mae dysgu trawsgwricwlaidd yn ddull sydd yn cael ei ddefnyddio mewn nifer o dasgau a gwersi. Un dasg a wnaeth sefyll allan i fi oedd pan oedd rhaid i'r plant darllen cyfarwyddiadau er mwyn lliwio wynebâu a dillad ar bobl. Er mwyn cwblhau'r dasg yma roedd angen i'r plant defnyddio sgiliau datrys problemau wrth ddarllen y cyfarwyddiadau, yn ogystal â datblygu ar eu sgiliau creadigol er mwyn darlunio dillad ac emosiynau gwahanol ar y bobl. Wnaeth hyn annog trafodaethau effeithiol yn y dosbarth wrth i'r plant cydweithio gyda'n gilydd er mwyn cwblhau'r dasg. Wrth ddysgu yn drawsgwricwlaidd mae profiadau personol yn elfen bwysig o hyn wrth gysylltu sgiliau creadigol chwarae rôl gyda sgiliau rhifedd o gyfri arian er enghraifft siop ffrwyth. Mae chwarae rôl yn elfen bwysig o ddysgu trawsgwricwlaidd gan fod yn rhoi siawns i blant arbrofi gyda phroblemau bywyd go iawn gan hefyd dysgu geirfa newydd a datblygu ar sgiliau angenrheidiol.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn berthnasol iawn i blant dysgu sylfaen gan ei fod yn darparu strwythur cadarnhaol ar gyfer datblygu sgiliau hanfodol sy'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant yn y byd go iawn (Hwb.gov 2023). Mae ymchwil gan Brown a Jones (2018) yn pwysleisio pwysigrwydd dysgu

trawsgwricwlaidd gan hefyd uwcholeuo bwysigrwydd cysylltu pynciau llythrennedd, rhifedd, a chymhwysedd digidol i fframweithiau addysgol i sicrhau datblygiad cyfannol wrth ddysgu sylfaen. Mewn addysg gynradd, mae sgiliau llythrennedd fel darllen ac ysgrifennu yn sylfaenol i bob maes dysgu, gan alluogi i blant defnyddio'r sgiliau yma mewn pynciau eraill wrth ddysgu yn drawsgwricwlaidd. Mae hefyd yn rhoi siawns i blant gweld y pwnc yma mewn persbectif gwahanol gan gyffroi plant i ddysgu (Hwb.gov 2024). Yn yr un modd, mae sgiliau rhifedd yn hanfodol er mwyn datblygu sgiliau datrys problemau a meddwl yn feirniadol sydd yn gallu fod yn sgil hanfodol gall defnyddio mewn meysydd gwahanol gan gynnwys gwyddoniaeth, technoleg a mathemateg. Ond yn tu hwynt i hyn gall hefyd defnyddio sgiliau rhifedd mewn meysydd mwy creadigol er enghraifft wrth chware rôl. Fel rydw i wedi dweud wrth wneud gwers chwarae rôl gyda siop ffrwyth gall plant cymryd mewn tro cyfri arian ac ymarfer prisoedd sydd hefyd yn cynnwys profiadau bywyd go iawn. Yn ogystal â hyn mae cymhwysedd digidol yn cael ei gydnabod yn fwy fel sgil sylfaenol ar gyfer datblygu sgiliau gyfathrebu, cydweithio, a chreu cynnwys gan ddefnyddio technolegau digidol (Clark, 2017). Trwy integreiddio'r cymwyseddau hyn i'r cwricwlwm, mae'r Fframwaith yn sicrhau bod plant ar draws grwpiau oedran cynradd yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol er mewn llwyddo yn gymdeithas sy'n cael ei gyrru'n ddigidol, gan eu paratoi ar gyfer newidiadau academaidd a phroffesiynol yn y dyfodol. Mae hyn yn bwnc modern i'r cwricwlwm i Gymru ond yn hynod o bwysig gan fod hybu dealltwriaeth ddigidol plant mewn byd sydd yn symud mwy ac yn fwy tuag at dechnoleg.

Mae dysgu trawsgwricwlaidd yn cyflwyno nifer o gyfleoedd i blant gwella ar sgiliau angenrheidiol er enghraifft sgiliau datrys problemau, meddwl yn feirniadol a chysylltu gyda bywyd go iawn. Trwy integreiddio pynciau lluosog gall athrawon cysylltu'r hyn mae plant yn dysgu yn y dosbarth ac yn cymhwyso ar brofiadau bywyd go iawn sydd yn hefyd perthnasol i'r ardal. Mae'r dull hwn hefyd yn hybu creadigrwydd ac arloesedd wrth annog y plant i archwilio pynciau o safbwyntiau amrywiol a chymhwyso gwybodaeth mewn cyd-destunau byd go iawn. Mae hefyd yn rhoi siawns i blant datblygu sgiliau sylfaenol fel llythrennedd neu rifedd mewn modd creadigol sydd hefyd yn cynyddu diddordeb y plant o fewn y dosbarth (A New Direction, 2007). Yn ogystal â hyn mae dysgu trawsgwricwlaidd yn cyd-fynd â chymdeithas sy'n datblygu'n gyflym ac yn symud i'r cyfeiriad digidol ac felly mae'r dull yma yn paratoi plant am brofiadau proffesiynol ac academaidd y dyfodol. Ond ar y llaw arall gall dysgu trawsgwricwlaidd hefyd achosi rhai problemau yn enwedig i blant ag anghenion. Wrth ddysgu yn drawsgwricwlaidd gall rhai plant sydd yn gweld hi'n anodd datblygu sgiliau sylfaenol y meysydd dysgu cael trafferth cysylltu sgiliau yma gyda phynciau gwahanol. Yn ogystal â hyn wrth integreiddio pynciau lluosog gall rhoi straen ar blant sydd yn ffeindio hi'n anodd canolbwyntio neu anghenion eraill (Thomas, 2019). Yn ogystal â hyn gall anghenion dysgu amrywiol plant gwneud hi'n anodd i athrawon wahaniaethu'n effeithiol wrth drio cynnwys pynciau lluosog er mwyn llwyddo cynllunio gwers drawsgwricwlaidd. Mae amser ac adnoddau sydd eu hangen ar gyfer cynllunio a gweithredu gweithgareddau trawsgwricwlaidd yn rhoi straen ar athrawon wrth gynllunio gwers sydd hefyd yn dilyn canllawiau'r cwricwlwm i Gymru a meini prawf asesu er mwyn cynhyrchu gwers effeithiol (NRICH, 2024). Ond wrth i'r gymdeithas symud mwy ac yn fwy tuag ag at dechnoleg mae gwersi trawsgwricwlaidd yn cynnwys fwy o fanteision nag anfanteision. Yn ogystal â hyn mae hefyd yn sicrhau diddordeb yn y dosbarth lle mae plant yn dysgu sut i ddefnyddio eu sgiliau

angenrheidiol mewn profiadau bywyd go iawn sydd yn berthnasol i ddyfodol llwyddiannus y plant.

Mae dysgu trawsgwricwlaidd yn cyfeirio at bynciau amrywiol yn cael eu hintegreiddio mewn un wers neu dasg. Mae'r dull addysgol yma yn gwrthio tu hwnt i ffiniau pynciau traddodiadol, gan feithrin cysylltiadau o sgiliau rhwng gwahanol feysydd dysgu. Hefyd mae dysgu trawsgwricwlaidd yn pwysleisio cydberthynas gwybodaeth a sgiliau ar draws y meysydd dysgu, gan gydnabod bod heriau a chyfleoedd byd go iawn yn aml yn gofyn am bersbectif gwahanol. Trwy integreiddio pynciau amrywiol fel mathemateg, gwyddoniaeth, celfyddydau iaith, ac astudiaethau cymdeithasol, mae athrawon yn rhoi cyfleoedd i'r plant archwilio pynciau cymhleth mewn persbectif gwahanol, gan hyrwyddo meddwl beirniadol, datrys problemau, a chreadigedd (Ontario, 2020). Mae'r dull hwn yn annog plant i gymhwyso'r wybodaeth a'r sgiliau dysgwyd o fewn un pwnc i ddatrys problemau neu ddyfnhau dealltwriaeth mewn pwnc arall, gan gysylltu'r meysydd dysgu. Yn ogystal â hyn, mae dysgu trawsgwricwlaidd yn hybu gallu plant i wneud cysylltiadau rhwng gwybodaeth academiaidd a sgiliau angenrheidiol yn y dosbarth a chymhwyso i brofiadau'r byd go iawn. Yn fy mhrofiadau yn fy ysgol pontio mae profiadau bywyd go iawn yn bwysig iawn ac mae dysgu trawsgwricwlaidd yn hybu profiadau yma. Yn fy ysgol pontio mae'r athrawon yn rhoi pwyslais ar greadigrwydd ac yn trio integreiddio sgiliau sylfaenol fel llythrennedd, rhifedd neu gymhwysedd digidol er mwyn dangos i'r plant sut i ddatblygu'r sgiliau yma mewn modd creadigol a hwylus. Mae hyn yn elfen bwysig o'r cwricwlwm gan fod y cwricwlwm i Gymru yn rhoi pwyslais clir ar ddysgu trwy chwarae ac felly mae dysgu trawsgwricwlaidd yn ffyrdd o gynllunio gwers sydd yn hybu creadigrwydd ac annibyniaeth plant gan hefyd datblygu sgiliau angenrheidiol. Yn ogystal â hyn mae triplau ysgol hefyd yn wers effeithiol wrth ddysgu plant am ei ardal sydd hefyd yn elfen bwysig o'r cwricwlwm. Gall cynllunio gwers drawsgwricwlaidd ar dri ysgol gyda rhywbeth mor syml â map gall plant tracio eu hun o gwmpas amgueddfa neu barc lleol a chyfri camau. Mae hyn yn integreiddio sgiliau rhifedd a creadigol wrth hefyd cynnal profiadau bywyd go iawn. Ond yn fy ysgol pontio rydw i wedi arsylwi fod plant gydag anghenion yn gweld hi'n anodd cadw lan gyda gwersi trawsgwricwlaidd. Fel y dwedais o blaen gall gwersi trawsgwricwlaidd rhoi straen ar blant yma a gall colli diddordeb yn y dasg. Ond yn gyffredinol rydw i wedi gweld pwysigrwydd dysgu trawsgwricwlaidd a sut mae wedi hybu diddordeb yn y dosbarth gan gynnwys profiadau bywyd go iawn.

I gloi mae'r Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn bwysig iawn wrth lunio addysgu a dysgu effeithiol. Yn gyntaf, mae'n darparu dull strwythuredig er mwyn trosglwyddo sgiliau hanfodol i'r plant, gan sicrhau bod ganddynt y sgiliau sylfaenol llythrennedd, rhifedd a'r cymhwysedd digidol sy'n angenrheidiol ar gyfer llwyddiant yn fywyd go iawn. Mae'r dull cyfannol hwn yn meithrin dealltwriaeth ddyfnach a chymhwyso gwybodaeth ar draws cyd-destunau amrywiol, gan wella ymgysylltiad a diddordeb y plant. Ar ben hynny, mae'r Fframwaith yn arwain athrawon wrth ddylunio gweithgareddau dysgu sy'n hybu meddwl beirniadol, sgiliau datrys problemau a sgiliau cyfathrebu. Wrth i fi dechrau dysgu byddaf yn sicrhau wrth gynllunio fod rydw i yn integreiddio dau bwnc gyda phwrpas er mwyn gwella sgiliau'r plant. Er enghraifft byddaf yn cynllunio gwersi gwerthfawr sydd yn denu sylw'r

plant ond hefyd defnyddio gwahaniaethu er mwyn sicrhau fod pob plentyn yn dysgu rhywbeth ym mhob gwers. Thema fy ysgol pontio i ar ôl hanner tymor yw Mae'r Byd yn Arbennig golyga hyn byddaf yn edrych yn ddwfn ar gynhesu byd eang ac ailgylchu. Felly un o fy syniadau am wers drawsgwricwlaidd yw creu anghenfil ailgylchu allan o ddeunydd ailgylchu gyda'r dosbarth sydd yn hybu sgiliau creadigol y plant. Yna byddaf yn cael y plant i wneud fideo o'i gilydd yn esbonio sut wnaethon nhw greu'r anghenfil yma gan ddefnyddio geirfa newydd perthnasol. Bydd hyn yn hybu sgiliau llythrennedd a digidol y plant wrth gael hwyl a sbri yn y dosbarth. Gall sbardun fel hyn cynhyrchu fwy o wersi perthnasol i'r anghenfil ailgylchu wrth ysgrifennu stori fer amdano neu fesur hyd y creadur sydd hefyd yn cynyddu diddordeb y plant. Yn ystod fy amser pontio mae rhaid i fi ddilyn safonau SAC sydd yn rhestr i wirio fy mod i wedi llwyddo erbyn y tair blynedd. Byddaf yn defnyddio safonau yma er mwyn cynllunio gwersi cytbwys ond hefyd i arbrofi gyda llawer o dechnegau dysgu gwahanol wrth ddysgu.

Rhestr Cyfeirnod

A New Direction. (2007), *Cross-curricular Creative Projects*, Tud 6, ar gael:
<https://www.anewdirection.org.uk/asset/172>

Brown, A., & Jones, R. (2018), *Integrating Literacy, Numeracy, and Digital Competence: A Framework for Holistic Development*. *Journal of Education Research*, 47(3), Tud 321-336.

Clark, E. (2017), *Digital Competence in Primary Education: Challenges and Opportunities*. *Educational Review*, 63(4), Tud 567-582

HistoricalAssociation. (2024), *Cross curricular learning*, ar gael:
<https://www.history.org.uk/primary/module/3638/leading-primary-history/3653/cross-curricular-learning>

Hwb.gov. (2024), *Languages, Literacy and communication*, ar gael:
<https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/languages-literacy-and-communication/designing-your-curriculum>

Hwb.gov. (2023), *Mathematics and Numeracy Plan 2023*, ar gael:
<https://www.gov.wales/mathematics-and-numeracy-plan-2023-html#:~:text=Numeracy%2C%20alongside%20literacy%20and%20digital,and%20developed%20across%20the%20curriculum.>

Johnson, L. (2020), *Intergrating subjects for Enhanced Learning*. Journal of Curriculum Studies, 52(3), Tud 389-405.

NRICH. (2024), *Key Obstacles Hindering Cross-curricular Teaching*, ar gael:
<https://nrich.maths.org/8453>

Ontario. (2020), *Cross-Curricular and Integrated learning*, ar gael:
<https://www.dcp.edu.gov.on.ca/en/program-planning/cross-curricular-and-integrated-learning/introduction>

Smith, J. (2018), *Interdisciplinary Approaches in Education*. Educational Review, 70(2), Tud 245-261.

Thomas, R. (2019), *Attention Deficits and Cross-Curricular Learning: Strategies for Support Students*. Journal of Educational Research, 60(2), Tud 145-158.

Darpar athro:	Megan James	Dosbarth / Grŵp	Blwyddyn 2
MDPh neu Bwnc:	Y Celfyddydau Mynegiannol	Dyddiad <i>(sylwer y gall y sesiwn hon fod yn un barhaus):</i>	08/04/24
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm (Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig, Disgrifiadau dysgu, y cwricwlwm 'blaenorol'...)	Cam cynnydd 2- Rwy'n gallu creu fy nyluniadau fy hun, ac rwy'n gallu gweithio ar y cyd gydag eraill i ddatblygu syniadau creadigol.		

Cysylltiadau ystyrllon ar draws y Cwricwlwm (Cysylltiadau â MDP hau eraill neu'r Fframweithiau sgiliau trawsgwricwlaidd)	Gwyddoniaeth a Thechnoleg- Mae'r plant yn gallu defnyddio ipad er mwyn creu fideo o'u gilydd yn gwerthuso'r hyn rydyn ni wedi creu. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu- Wrth wneud y fideo rydw i yn disgwyl iddyn nhw defnyddio geirfa newydd perthnasol i'r pwnc.
Targedau Personol (targedau a'r effaith ganlyniadol ar ddysgu – cyfeiriwch at unrhyw dargedau sydd wedi'u nodi yn y dyddlyfr dysgu neu gyfarfod adfyfrio wythnosol a disgrifiwch yr effaith a ddymunir ar ddysgu)	
Bwriad Dysgu <i>'Dylai hyn ganolbwyntio ar y dysgu gan y disgyblion yn ystod y wers, yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud, a dylai fod yn fyr, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.'</i> (Crichton, H., a Mcdaid, A. 2016 t. 196)	
-Mae'r plant yn adnabod deunydd ailgylchu gwahanol. -Cydwethio fel dosbarth er mwyn creu yr Anghenfil ailgylchu. -Dechrau defnyddio geirfa newydd perthnasol i'r pwnc.	
Meini prawf llwyddiant <i>Yr hyn mae angen i'r disgyblion ei ddangos i fodloni'r Bwriad Dysgu yn llwyddiannus.</i>	
-Canolbwyntio yn ystod pwynt pwer er mwyn dysgu geirfa newydd. -Trafod gyda'r dosbarth am syniadau am yr Anghenfil ailgylchu.	
Cynllunio ar gyfer camsyniadau: <i>Defnyddiwch yr adran hon i ragweld gwallau a chamddealltwriaethau disgyblion a'r ymatebion yr ydych yn bwriadu eu rhoi iddynt.</i>	
-Efallai na fydd aelodau swil y dosbarth yn cyfrannu tuag at creu yr Anghenfil - Byddaf yn defnyddio sticiau loli er mwyn sicrhau cyfraniad teg -efallai na fydd plant yn teimlo'n hyderus yn gwerthuso yr Anghenfil gyda geirfa newydd- Byddaf yn rhoi plant mewn i parau neu grwpiau er mwyn i nhw cel siawns i trafod beth mae nhw am ddweud ac yna rhannu syniadau gyda y dosbarth	

DILYNIANT ADDYSGU A DYSGU <i>(Ychwanegwch neu dynnu rhesi isod fel y bo'n briodol)</i>				
Amseru:				

<i>Rhannwch yr amseru yn grwpiau os yw'n briodol. Gwnewch yn siŵr fod disgyblion yn mynd ati i 'wneud' yn gyflym a bod y cyfnodau pontio'n cael eu hystyried</i>	Rôl yr athro a'r staff cymorth: <i>e.e. cwestiynau allweddol, adalw dysgu blaenorol, modelu ac esboniadau, gwirio dealltwriaeth, defnydd a fwriedir o oedolion ychwanegol</i> <i>Dewis o fodel addysgegol neu o'r 12 egwyddor addysgegol</i>	Y dysgu gan y disgyblion a'r gweithgareddau: <i>Beth fydd y disgyblion yn dysgu ei wneud a pha weithgareddau / adnoddau fydd yn hwyluso hyn?</i> <i>Cyfeiriwch at y ddogfen Dysgu Sylfaen i gael manylion y ddarpariaeth.</i>	Strategaethau Cynhwysol (yn cynnwys gwahaniaethu): <i>Y rhesymau dros sgaffaldio a manylion hynny.</i> <i>Mathau o gynrychiolaeth mewn tasgau.</i>	Gwiriwch beth mae disgyblion yn ei wybod, yn ei ddeall, ac yn gallu ei wneud: <i>Cwestiynau allweddol, mathau o ymarferion adalw, cyfleoedd i hunanasesu ac asesu cymheiriaid, cyfleoedd marcio byw, adborth a fwriedir.</i>
10 munud	-Amser carped, lle byddaf yn dangos y plant fideo o dyn yn safle ailgylchu yn gofun i nhw defnyddio deunydd ailgylchu er mwyn creu Anghenfil. -Creu pwynt pwer o geirfa a deunydd gwahanol er mwyn ytsbridoli y plant -Yna byddaf yn dangos nhw esiempl o'r gwaith felly mae'r plant yn gallu dechrau meddwl am syniadau -Cyn dechrau y tasg gall trafod mewn grwpiau gyda syniadau ac yna rhannu syniadau gyda'r dosbarth felly rydw i yn gwybod fod y plant yn deall y gwaith	-Wrth gwyllo y fideo mae'r plant yn cael syniad o safle ailgylchu ac yn dechrau dysgu geirfa newydd -Yn ystod y pwynt pwer fydd y plant yn dysgu geirfa addas ac yn cael siawns i gofun cwestynau am y deunydd gwahanol -Dechrau dysgu pa sbwriel sydd yn mynd yn y bin cywir -Bydd plant yn cael eu annog i trafod mewn grwpiau a cyfrannu at cwestynau	-Trafod mewn parau er mwyn cynllunio syniadau ar gyfer yr anghenfil -Byddaf yn gofun cwestiynau er mwyn sichrau fod pawb yn deall a rhoi cymorth pellach i'r rhai sydd angen	-Byddaf yn cwestynnu plant er mwyn sichrau fod pawb yn deall -Byddaf yn gofyn i pawb i wneud bys bawd er mwyn i fi weld fel dosbarth os yw rhai ddim yn deall -Treulio amser gyda unigolion er mwyn esbonio ymhellach

15 munud	-Gwahanu mewn i grwpiau er mwyn dechrau creu eu anghenfil gan defnyddio deunydd ailgylchu. -Bydd y rhai o allu is yn cael cymorth gyson mewn amrywiaeth o ffyrdd yn dibynnu ar eu hanghenion. -Yna gall rhai plant dechrau trafod a gwerthuso eu anghenfil er mwyn creu clip fideo i anfon nol.	-Defnyddio adnoddau celf a deunydd ailgylchu er mwyn wella ar eu sgiliau. -Annog plant i trafod a cydweithrio er mwyn cwblhau'r tasg	-Wrth creu yr anghenfil, byddaf yn sichrau fod pawb yn defnyddio adnoddau celf yn gywir ac yn modelu i'r rhai sydd yn drysu	-Byddaf yn modelu fy ngwaith er mwyn i'r plant cael ysbrydoliaeth wrth creu eu Anghenfil
10 munud	-Trafod mewn parau er mwyn dechrau paratoi am beth mae nhw am ddweud yn y fideo. -Gall ysgrifennu syniadau neu sgrïpt er mwyn i nhw teimlo yn fwy hyderus wrth siarad. -Yn ogystal a hyn os ydw i yn gweld fod rhai yn drysu gall trafod fel dosbarth er mwyn creu sgrïpt gyda'n gilydd yn defnyddio geirfa perthnasol i'r tasg.	-Rhoi taflen geirfa er mwyn i nhw dechrau strwythuro brawddegau ar gyfer y clip fideo0 -Trafod fel dosbarth am geirfa addas er mwyn rhoi cymorth pellach i rhai sydd angen -Bydd y plant yn dysgu geirfa newydd ac yn dechrau deall sut i gwerthuso gwaith	-Byddaf yn rhoi taflen geirfa er mwyn iddyn nhw strwythuro brawddegau er mwyn gwerthuso -Trafod gyda unigolion sydd angen fwy o cymorth i drafod syniadau	-Byddaf yn trafod fel dorbarth am syniadau wrth gwerthuso -Trafod meini prawf llwyddiant er mwyn gwerthuso eu gwaith

